**Rhif: 2**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C19/1197/02/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **24-12-2019** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Corris** |
| **Ward:** | **Corris/Mawddwy** |
| **Bwriad:** | **Creu safle carafanau teithiol ar gyfer 11 uned teithiol ynghyd a gosod bloc toiledau a tirlunio.** |
| **Lleoliad:** | **Canolfan Grefftau Corris, Corris Uchaf, Gwynedd, SY20 9RF** |
| **Crynodeb o’r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad

1.1 Cais llawn ar gyfer creu maes carafanau teithiol i leoli 11 uned deithiol (carafanau, carafanau modur). Bwriedir hefyd gosod cwt bugail fel adnoddau golchi yn hanner deheuol y safle. Bydd y cwt bugail yn un teithiol ac yn mesur 3.6 medr o hyd a 2.3 medr o led, fe’i cysylltir i garthffosiaeth gyhoeddus bresennol yn y safle. Mae’r cwt bugail ar ffurf teithiol a datgan yr ymgeisydd y byddai yn gadael y safle tu allan i dymor gwyliau er gwaethaf ei gysylltiad i’r garthffos gyhoeddus. Lleolir y safle ar dir cyn chwarel a oedd yn destun Cynllun Adennill Tir yn tua 1980. Datgan Uwch Swyddog Mwynau a Gwastraff bod y safle yn hen chwarel lechi ond nid oes caniatad cynllunio mwynau dilys ar y safle nac chwaith mwynau o fewn 200 metr. Mae’r safle heddiw wedi ei orchuddio gyda glaswellt. Ni fydd y bwriad yn golygu cloddio ar gyfer creu sylfaen ac eithr cysylltu'r uned ymolchi i’r garthffos gyhoeddus. Bydd lleiniau’r unedau teithiol yn aros gydag wyneb glaswellt wedi atgyfnerthu.

1.2 Lleolir unedau ar hyd ochr gorllewinol y safle sydd tua 15 medr o ymyl y gefnffordd yn ei fan agosaf. Datgan yr ymgeisydd y bwriedir cadw'r coed ar hyd y terfynau, ond mae’n debygol y bydd rhaid torri rhai o’r coed ym mhen gogleddol y safle. Bwriedir codi clawdd a phlannu mwy o goed fel rhan o gynllun i dirlunio'r safle.

1.3 Lleolir y safle bwriededig rhwng tir uwch coediog a’r gefnffordd sydd tua 500 medr i’r gorllewin o ffin pentref Corris. Mae’r safle yn wag ar hyn o bryd gyda choed ifanc yn tyfu ar y terfynau.

1.4 Mae’r safle yn gorwedd o fewn Ardal Tirlun Arbennig ac ymysg Safleoedd Bywyd Gwyllt Corris. Cysylltir y safle i’r gefnffordd gyfochrog ar hyd darn byr o lwybr y ffordd sirol ddi-ddosbarth (llwybr y ffordd sirol flaenorol). Lleolir y safle tua 200 medr oddi wrth dai preswyl i’r dwyrain a thŷ tua 120 medr i’r gorllewin ac Unedau Canolfan Crefftau Corris a Labyrinth y Brenin Arthur tua 150 medr i’r de.

1.5 Cyflwynwyd Datganiad Dylunio a Mynediad gyda’r cais (er nad yw’n orfodol i wneud hynny) yn ogystal a Asesiad Ecolegol acAdroddiad Coed.

## 2. Polisiau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant

TWR 5: Safleoedd carafannau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10 - Rhagfyr 2018)

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth

**3 Hanes Cynllunio Perthnasol:**

Dim hanes perthnasol.

**4 Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cytuno y byddai yn syniad da i annog twristiaeth i'r ardal, nodi a fyddai llwybr anffurfiol drwy'r safle yn aros yn agored a phryder bod y cynllun yn dangos ond 1 cawod a thoiled ar gyfer 11 carafán. |
| Llywodraeth Cymru (Cefnffyrdd) | Dim gwrthwynebiad. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad i'r cynllun diwygiedig ac yn argymell ymgynghori gydag Uned Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru parthed effaith y bwriad ar y gefnffordd |

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad i’r bwriad. Yn croesawu cadarnhad gan yr ymgeisydd bydd y datblygiad yn cael ei gysylltu i'r brif garthffos gyhoeddus. Yn argymell efallai y dylid cynnwys amod mewn unrhyw ganiatâd i gadarnhau bod y draeniad budr o'r datblygiad arfaethedig am gysylltu â'r brif garthffos.<br><br>Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Nodi bod yr adroddiad ecolegol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (Whitcher Wildlife Ltd. Ecological Consultants, 200245, 18th February 2020) wedi nodi nad oedd rhywogaethau a warchodir gan Ewrop yn defnyddio safle'r cais. Felly, nid oes unrhyw sylwadau ecolegol pellach i'w gwneud ar y cais fel y'i cyflwynwyd. Cynnig sylwadau arferol ynglŷn â chloddio'r safle a gwaredu gwastraff. |
| Uwch Swyddog Mwynau a Gwastraff ar ran Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru | Cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiad i’r cais uchod.<br><br>Mae’n hen chwarel lechi ond nid oes caniatad cynllunio mwynau dilys ar y safle na chwaith unrhyw weithfeydd mwynau o fewn 200 metr ac felly, dim gwrthdaro hefo polisi MWYN 5 o’r Cynllun Datblygu Lleol; ‘Cylchfeydd Rhagod Safleoedd Mwynau’. Nid oes chwaith unrhyw adnodd mwynau cydnabyddedig ar y safle fel y dangosir ar y mapiau Cynigion sef; adnoddau craig called, carreg galch a tywod a graean. Felly, dim gwrthdaro hefo polisi MWYN 1 o’r Cynllun Datblygu Lleol, ‘Diogelu Adnoddau Mwynau’. |
| Dŵr Cymru: | Sylwadau arferol parthed lleoliad draen carthffosiaeth a peipen ddwr cyhoeddus. Cynnig sylwadau parthed gweithio ar y safle yn gyffedinol a datgan dim gwrthwynebiad i gysylltu yr uned ymolch i garthffos gyhoeddus |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Carthffosiaeth<br><br>Mae’r garthffosiaeth gyhoeddus tu fewn I 30 medr o’r bwriad. Rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau y bydd y garthffosiaeth yn destun cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus. Lle nad yw lefelau yn caniatáu draeniad drwy ddisgyrchiant bydd gosodiad pwmpio'n cael ei ddarparu. Bydd manylion llawn yn cael eu cyflwyno i'r adran gynllunio i'w hystyried cyn y gellir gwneud unrhyw argymhelliad i gefnogi'r cais hwn.<br><br>Gofynion Trwydded Safle<br><br>Bydd y datblygiad angen trwydded safle a bydd angen cyfarfod gydag amodau trwydded. Mae’r amodau yn berthnasol i Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tan a darpariaeth Iechyd Cyhoeddus. Rhaid i'r datblygiad gydymffurfio gyda’r Deddfau ar Safonau fel a ganlyn:- Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 Safonau Model 1983 (Amodau Trwydded Carafanau teithiol / pebyll) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ayyb 1974 Ceir gopi o’r Safonau Model (amodau trwydded) a’r gofynion a nodir uchod ar wefan Cyngor Gwynedd a bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd gysylltu ag Uned Trwyddedu, Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar 01766 771000 neu trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru i drafod cais am drwydded safle petai’r cais yn llwyddiannus.<br><br>Datgan yr ymgeisydd y byddai'r ddarpariaeth ymolchi yn cyfarfod |

| | |
|---|---|
| | anghenion trwyddedu ac ni fyddai trafferth ehangu'r ddarpariaeth er cydymffurfio gydag Uned Trwyddedu.<br><br>Tir Halogedig<br><br>Datgan nad oes angen Asesiad Tir Halogedig ond yn awgrymu gosod amod priodol ar unrhyw ganiatad cynllunio |
| Uned Bioamrywiaeth | Mae'r cais wedi ei lleoli drws nesaf i Safle Bywyd Gwyllt - Coed Braich Goch 1618 sydd wedi cael ei dynodi ar gyfer y cynefinoedd canlynol: coedlan dderw ucheldir, glaswelltir asidig, ac open mosaic. Mae'r ardal yn bwysig i ystlumod, pathewod ac adar.<br><br>Cyflwynwyd Asesiad Effaith Ecolegol fel rhan o'r cais<br><br>Datgan yr Uned Bioamrywiaeth bod 2 safle bywyd gwyllt ger y safle ond ni fyddent yn cael eu effeithio gan y bwriad.<br><br>Mae'r bwriad yn debygol o effeithio ar Bioamrywiaeth y safle. Mae pryder ynglyn ac effaith y bwriad ar ymlusgiaid a chynefin adar o fewn y safle ond mae'n debygol na fyddai y bwriad yn amharu ar gynefin dyfrgwn yn yr afon gyfagos ac nid yw'r safle yn cynnwys nodweddion sy'n addas i ystlumod glwydo ac felly mae'n anhebygol o effeithio ar ystlumod.<br><br>Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn argymell yr amodau canlynol:<br><br>Dim clirio llystyfiant yn ystod tymor nythu adar (Mawrth i Awst)<br>Dim clirio tir yn ystod tymor cysgu ymlusgiaid (Hydref i Mawrth)<br>Gweithredu yn unol a asesiad ecolegol.<br>Cyflwyno Cynllun Gwella Bioamrywiaeth. |
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus:** | Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac nid oedd trigolion cyfagos i'w gwybyddu.Ni dderbyniwyd ymateb. |

**5 Asesiad o'r ystyriaethau Cynllunio perthnasol:-**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r egwyddor i sefydlu safle carafanau teithiol wedi ei selio ym Mholisi TWR5 o'r CDLl. Caniateir y fath ddatblygiadau os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf:-

Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a'i fod wedi ei leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi ei guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd fel nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd - mae'r bwriad yn golygu sefydlu maes carafanau teithiol ar safle oedd yn ôl yr ymgeisydd yn ddarostyngedig i Gynllun Adennill Tir yn 1980. Er bod yr ardal leol yn goediog, mae rhan o'r safle yn weladwy o'r gefnffordd gyfochrog yn bennaf o gyfeiriad y pentref. Bwriedir lleoli'r unedau teithiol ar hyd ochr gorllewinol y safle a fyddai tua 15 medr yn ei fan agosaf oddi wrth ymyl y gefnffordd gyfochrog. Mae'n debygol y byddai'r bwriad yn golygu colli rhywfaint o goed presennol, fodd bynnag, mae'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais yn dangos plannu helaeth ar hyd terfynau'r safle ynghyd a rhwng yr unedau. Byddai gosod yr unedau fel hyn yn caniatau lle gwag mwynderol o fewn y safle. Datgan yr ymgeisydd y bwriedir codi clawdd ar hyd terfyn dwyreiniol y safle, mae bwriad o'r fath i'w groesawu oherwydd y byddai yn creu sgrin. Ni

dderbyniwyd manylion y clawdd ac felly ystyrir bydd angen rhoi amod ar unrhyw ganiatâd i gyflwyno a chytuno manylion. Gan ystyried yr uchod credir na fydd y bwriad hwn yn ddatblygiad ymwthiol yn y tirlun.

Bod y bwriad yn osgoi gormodedd o ardaloedd o leiniau caled - mae’r bwriad yn golygu gosod 11 uned ar safle sy’n mesur tua 0.45 hectar a thua 10 medr rhwng pob uned. Noder felly y bwriedir dwysedd isel ar gyfer y safle. Bwriedir atgyfnerthu'r glaswellt o amgylch yr unedau ar gyfer creu llain sych; a byddai hynny yn golygu gosod deunydd tebyg i rwyd fras blasic yn unig dros y glaswellt gwellt presennol. Bydd y safle yn defnyddio wyneb glaswellt parhaol. Cyfyngir arwynebedd caled i ffordd mynediad presennol y tu allan i’r safle a mynediad byr i’r safle

Bod y cysylltiad ffisegol a’r ddaear yn gyfyngedig ac yn gallu cael ei symud oddi ar y safle yn y tymor caeedig - datgan yr ymgeisydd nad yw’r uned ymolchi a’r unedau teithiol yn barhaol. Ni fyddai unrhyw uned deithiol ar y safle y tu allan i’r tymor gwyliau. Mae'r uned ymolchi yn un symudol a byddai yn gadael y safle yn y gaeaf (tu allan i dymor gwyliau). Bydd yr unedau yn rhai teithiol ac felly bydd unrhyw gysylltiad ffisegol â’r ddaear yn y lleiafswm.

Dylid lleoli unrhyw gyfleusterau atodol mewn adeilad presennol, neu, os nad yw hyn yn bosib, bod unrhyw gyfleuster newydd yn gymesur a graddfa’r datblygiad - yr unig gyfleuster atodol sy’n rhan o’r bwriad yma yw’r uned symudol ar gyfer cyfleusterau ymolchi a thŷ bach sydd ar ffurf cwt bugail a fydd yn mesur 3.6 medr o hyd a 2.3 medr o led. Credir byddai ychwanegu’r strwythur yma i’r unedau gwyliau yn gymesur a graddfa’r datblygiad gan ystyried ei leoliad, dyluniad a’i osodiad yn y tirlun. Derbyniwyd cadarnhad gan yr Uned Gwarchod y Cyhoedd yn datgan nad yw’r uned ymolchi yn ddigonol ar gyfer cyrraedd safonau trwydded. Gwybyddwyd yr ymgeisydd o‘r sylwadau yma a derbyniwyd ei ymateb yn datgan gellir ymestyn yr uned ymolchi petai angen. O ystyried hynny a bod agweddau eraill y bwriad sy’n ymwneud a chriteria'r polisi yn dderbyniol, ystyrir y gellir gosod amod ar unrhyw ganiatâd i gytuno manylion uned ymolchi mwy cyn ei osod ar y safle.

Bod y safle’n agos at y brif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol - gwasanaethir y safle gan fynedfa bresennol i gefnffordd. Bu i’r Uned Trafnidiaeth awgrymu newid i osodiad y safle a derbyniwyd cynllun diwygiedig o ganlyniad i hynny. Mae’r newidiadau yn dderbyniol. Derbyniwyd sylwadau Llywodraeth Cymru (Cefnffyrdd) yn datgan dim gwrthwynebiad i’r bwriad.

Bod meddiannaeth y datblygiad wedi ei gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig - mae’r ymgeisydd wedi cadarnhau mai tymhorol yn unig fydd y defnydd a wneir o’r unedau gwyliau a byddai'r unedau yn cael eu symud o’r safle y tu allan i’r tymor gwyliau. Defnyddir y safle ar gyfer defnydd gwyliau yn unig.

Bod y safle’n cael ei ddefnyddio at ddibenion teithio’n unig a bod unrhyw unedau’n cael eu symud o’r safle yn y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio - datgan yr ymgeisydd y byddai’r unedau yn cael eu symud oddi ar y safle pan fydd y safle wedi cau/tu allan i’r tymor.

Yn sgil yr asesiad uchod credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail ei leoliad, gosodiad, graddfa a’i effaith ar fwynderau gweledol yr ardal leol ac i’r perwyl hyn, credir ei fod yn dderbyniol, yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau priodol, ac yn cydymffurfio gyda holl ofynion Polisi TWR5 o’r CDLL.

**Mwynderau gweledol**

5.2 Fel y cyfeiriwyd ato uchod, lleolir y safle mewn cae sy’n weddol guddiedig oherwydd presenoldeb coed a gwrychoedd ar hyd ei derfynau. Bydd yr unedau teithiol yn cynnwys

carafanau, a charafanau modurol a bydd yr uned ymolchi ar ffurf cwt bugail yn mesur 3.2 medr o hyd a 2.3 medr o led ac wedi gorffen mewn lliw gwyrdd cadwraeth. Lleolir y safle ar bwys tir sylweddol uwch a choediog i'r gorllewin. Mae gorweddiad y dirwedd ynghyd â thirlunio presennol ar y terfynau yn creu safle sy'n weddol guddiedig o'r gogledd ond yn weladwy o gyfeiriad y pentref i'r de. Fodd bynnag, mae'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais yn dangos bwriad i gryfhau'r gwrychoedd a choed presennol drwy godi clawdd a phlannu ychwanegol a byddai hynny yn lleihau unrhyw effaith ar y tirlun, credir na fyddai'r bwriad yn amharu'n andwyol ar gymeriad a naws cefn gwlad y tirlun lleol sydd wedi ei ddynodi yn Ardal Tirwedd Arbennig. Mae'r bwriad, felly, yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi AMG2, PCYFF3 a PS19 parthed ei effaith ar yr amgylchedd naturiol.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.3 Hysbysebwyd y cais ar y safle ac nid oedd trigolion lleol i'w gwybyddu. Lleolir y safle y tu allan i ffin y pentref a tua 200 medr oddi wrth dai agosaf i'r dwyrain; lleolir cefnffordd a ffordd sirol dosbarth 3 rhwng y safle ar tai hynny. Mae'n debygol y byddai'r unedau yn weladwy o'r tai cyn i'r cynllun tirlunio sefydlu ac aeddfedu. Ni ystyrir y byddai gweithgareddau bwriededig yn cael effaith niweidiol sylweddol ychwanegol ar fwynderau'r tai yn y cyffiniau oherwydd natur coediog y tirlun a lleoliad y safle wrth gefnffordd. Teimlir felly na fydd y defnydd bwriededig yn creu mwy o sŵn ac aflonyddwch yn sylweddol fwy na'r amgylchiadau presennol o gofio lleoliad y safle wrth Gefnffordd brysur a'I leoliad ger Canolfan Grefftau. Ni ystyrir y bydd y bwriad yn cael effaith niweidiol sylweddol ar drigolion cyfagos ac felly ni ystyrir bod y bwriad yn groes i Bolisi PCYFF 2 CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.4 Lleolir y safle rhwng cefnffordd a ffordd ddi-ddosbarth flaenorol ar dir sydd wedi ei adennill yn y gorffennol. Bwriedir creu mynedfa gerbydol i'r ffordd di-ddosbarth (llwybr fford sirol flaenorol) ac yna i'r gefnffordd. Gan ystyried graddfa'r datblygiad (11uned deithiol) ni ddisgwylir y bydd cynnydd sylweddol mewn lefel trafnidiaeth ar hyd rhwydwaith ffyrdd hyn a fyddai'n deillio o'r datblygiad ei hun ar draul diogelwch ffyrdd. Derbyniwyd sylwadau'r Uned Drafnidiaeth a Uned Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad oedd gwrthwynebiad i'r cynllun diwygiedig sydd yn dangos un fynedfa i'r safle; lleolir y fynedfa honno oddi ar y ffordd bresennol ar ochr gorllewinol i'r safle. Ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi TRA2 a TRA4 o'r CDLL.

**Materion bioamrywiaeth**

5.5 Mae'r bwriad yn golygu defnyddio tir sydd wedi ei adennill ar gyfer lleoli 11 uned deithiol ac uned ymolchi. Nid oes defnydd i'r tir ar hyn o bryd. Datgan yr ymgeisydd y bwriedir datblygu llain caled drwy ddefnyddio system sy'n atgyfnerthu'r glaswellt. Golyga hynny osod deunydd tebyg i rwyd fras plastic ar y wyneb presennol. Mae'n ymddangos nad oes angen codi croen glaswellt y safle presennol. Mae'r adroddiad coed yn datgan bod y datblygiad wedi ei ddylunio yn ofalus er mwyn cadw'r sgrin bresennol (coed lled aeddfed) o amgylch y safle gyda'r bwriad i wella'r sgrin yma gyda phlannu ychwanegol ar hyd y terfynau. Byddai bwriad yn golygu torri rhannau o goedlan anaeddfed fodd bynnag, ym marn yr arbenigwr coed byddai unrhyw waith torri coed yn cael ei liniaru gan y plannu ychwanegol. Byddai hynny yn caniatau rheoli coed presennol ynghyd a phlannu rhagor er mwyn gwella a diogelu gwerth ecolegol y safle.

5.6 Datgan Uned Bioamrywiaeth y Cyngor byddai'r bwriad yn golygu colli Bioamrywiaeth o fewn y safle. Er hynny, mae cynefinoedd cyffelyb yn bodoli'n lleol ac felly ni fydd yn golled leol yn sylweddol a bydd yr amodau cynllunio a awgrymir gan yr Uned Bioamrywiaeth yn lleihau'r golled ymhellach.

5.7 Nid oes gwrthwynebiad i'r cynnig hwn gan yr Uned Bioamrywiaeth cyn belled â bod mesurau yn cael eu cymryd i osgoi niwed i rywogaethau a bod y safle'n cael ei reoli i greu gweirglodd blodau

gwyllt. Noder bod mesurau lliniaru wedi eu gosod yn yr adroddiad ecolegol a gellir amodi hyn yngyd a'r canlynol.

<u>Mesurau lliniaru effeithiau ar fioamrywiaeth</u>

Ni ddylid clirio'r safle o unrhyw goeden, llwyn na llystyfiant yn ystod y tymor nythu adar (Mawrth tan Awst)

Dim clirio tir o fewn tymor cysgu ymlusgiaid yn y gaeaf.

Gweithredu argymhellion asesiad ecolegol.

Cyflwyno Cynllun Gwella Bioamrywiaeth cyn dechrau gwaith.

**Yr economi**

Cyflwynwyd gwybodaeth gyda'r cais yn datgan y byddai'r bwriad yn darparu adnoddau ychwanegol i Ganolfan Crefftau presennol o fewn y pentref ynghyd ac ychwanegu at ddiwydiant llety ymwelwyr sy'n cyfrannu yn at economi'r ardal drwy gynnig cyflogaeth ynghyd a chyfieuon gyflogaeth i'r gymuned ac ardal ehangach.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail y materion fel y nodir yn yr adroddiad ac na fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd, mwynderau'r gymdogaeth na diogelwch ffyrdd.

## 7. **Argymhelliad:** Caniatau Gydag Amodau

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau diwygiedig ac adroddiadau arbenigol.
3. Cyfyngu'r niferoedd i 11 uned deithiol
4. Tymor gwyliau / lleoli
5. Cyfyngu'r unedau i ddefnydd gwyliau.
6. Dim storio unedau teithiol ar y safle
7. Bioamrywiaeth
8. Cyfyngu i'r tymor gwyliau.
9. Cadw cofrestr.
10. Dim torri coed, gwrychoedd neu glirio llystyfiant o fewn tymor nythu.
11. Cytuno/rheoli goleuo.
12. Cytuno manylion clawdd.
13. Cytuno manylion uned ymolchi cyn ei gosod ar safle
14. Tirlunio
15. Cynnal tirlunio
16. Darparu Cynllun Gwella Bioamrywiaeth
17. Dim clirio y tir yn y gaeaf yn ystod tymor cysgu ymlusgiaid

Nodyn Tir Halogedig